

syniad hwnnw gan oleuo ein neges gyda neges i bawb. Mae Efengyl Luc yn ymwneud â'r rheiny sy'n dlawd neu wedi'u heithrio a'r rheiny sydd angen iachâd yn eu bywydau. Mae'n her i'r eglwys, ac inni i gyd, i gynnig mwy o groeso i'r diarth a sicrhau caiff pawb eu cynnwys. Bydd hyn yn bwysig yn enwedig yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i Gymru barhau gyda'u hymdrech i fod yn 'Genedl Noddfa' ar gyfer yr holl bobl gaiff eu gorfodi i ffoi eu gwledydd eu hunain. Ysgrifennai Sant Luc: "... efe a wasgarodd y rhai beilchion yn mwriad eu calon, efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heisteddfannau, ac a ddyrchafodd y rhai isradd, y rhai newynog a lanwodd efe â phethau da, ac efe a anfonodd ymaith y rhai goludog yn weigion."

Digwyddiadau yn Eglwys Sant Gwyddelan y Dyfodiad hwn a'r Nadolig:

Dydd Sul, Tachwedd yr 28ain – 9.30yb, y Cymun ar gyfer Sul y Dyfodiad

Dydd Sadwrn, Rhagfyr y 18fed – 9.30yb, 'Taith Heulsafiad' o Ddolwyddelan i Lanrhychwyn

Dydd Sul, Rhagfyr y 19eg – 9.30yb, Boreol weddi ar gyfer y pedwerydd dydd Sul yn yr Adfent

Noswyl Nadolig – 5.30yp, Gwasanaeth Noswyl Nadolig

Dydd Gŵyl San Steffan – 9.30yb, y Cymun ar gyfer y Nadolig



Diwrnod Corachod er budd **Cymdeithas Alzheimers**



Dydd Sadwrn, Rhagfyr y 4^{ydd} 2.00yp

A J Physio, yr Hen Feddygfa, Stryd yr Eglwys
Hwyl a gemau'r Nadolig, taflen cwis y Nadolig gyda gwobrau ar gael.
Dewch i gogio bod yn gorrach gan godi arian tuag at y Cymdeithas
Alzheimers.

Croeso mawr i bawb!

Cysylltwch gydag Alison ar 07780 165 844 i wybod mwy.

